OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 1042 (Cy. 231)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *am 3.13 p.m. ar 25 Medi 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *am 6.00 p.m. ar 25 Medi 2020* |
| *Yn dod i rym - -* | *am 4.00 a.m. ar 26 Medi 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

## RHAN 1

### Cyffredinol

**Enwi, dod i rym a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 26 Medi 2020.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol" yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(**2**).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 1 mewn grym ar 26.9.2020 am 4.00 a.m., gweler **rhl. 1(2)**

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(**2**) O.S. 2020/574 (Cy. 132) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220) ac O.S. 2020/1015 (Cy. 226).

# RHAN 2

## Diwygiadau i'r rhestr o wledydd esempt yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

### Hepgor gwledydd a thiriogaethau o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt

**2.** Yn Rhan 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), hepgorer—

"Curaçao"

"Denmarc"

"Gwlad yr Iâ"

"Slofacia".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 2 mewn grym ar 26.9.2020 am 4.00 a.m., gweler **rhl. 1(2)**

### Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 24

**3.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo person ("P")—

(a) yn cyrraedd Cymru am 4:00 a.m. ar 26 Medi 2020 neu wedi hynny, a

(b) wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 2 ddiwethaf—

(i) o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru, a

(ii) cyn 4.00 a.m. ar 26 Medi 2020.

(2) Mae P, yn rhinwedd y ffaith iddo fod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 2, i'w drin at ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel pe bai wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt, neu fel pe bai wedi cyrraedd ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Rhl. 3 mewn grym ar 26.9.2020 am 4.00 a.m., gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 3

## Diwygiadau Amrywiol

### Diwygiadau i reoliad 10 (eithriadau i'r gofynion ynysu)

**4.**—(1) Mae rheoliad 10 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl paragraff (4)(jd) mewnosoder—

"(jh) pan fo P yn athletwr elît sydd wedi teithio i'r Deyrnas Unedig i gael un neu ragor o archwiliadau meddygol, i fynd i'r archwiliad hwnnw, ar yr amod—

(i) bod yr archwiliad meddygol at ddiben busnes sy'n penderfynu pa un ai i gynnig contract i P i gymryd rhan mewn cystadleuaeth elît ar ran y busnes hwnnw,

(ii) bod gan P gadarnhad ysgrifenedig yn ei feddiant oddi wrth y busnes hwnnw o'r trefniadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (i), a

(iii) bod y trefniadau hynny wedi eu gwneud cyn i P gyrraedd y Deyrnas Unedig;

(ji) pan fo P yn berson sy'n teithio gydag athletwr elît at ddiben is-baragraff (jh), i ddarparu cynorthwy a chymorth i'r athletwr elît hwnnw mewn cysylltiad ag archwiliad meddygol o'r fath;

(jj) pan fo P yn athletwr elît sydd wedi contractio â busnes i gymryd rhan mewn cystadleuaeth elît, i gymryd rhan mewn cystadleuaeth o'r fath neu ymgymryd â hyfforddiant neu weithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â'r gystadleuaeth elît honno;";

(3) Ym mharagraff (8), yn y man priodol mewnosoder—

"mae i "athletwr elît" ("*elite athlete*") yr un ystyr ag ym mharagraff 38(2)(a) o Atodlen 2";

"mae i "cystadleuaeth elît" ("*elite competition*") yr un ystyr ag ym mharagraff 38(2)(b) o Atodlen 2".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Rhl. 4 mewn grym ar 26.9.2020 am 4.00 a.m., gweler **rhl. 1(2)**

### Diwygio Atodlen 2 (personau esempt)

**5.**—(1) Yn Atodlen 2 (personau esempt) i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, mae paragraff 38 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-baragraff (1)(b), yn lle "darparu cymorth i athletwr elît mewn cystadleuaeth elît dramor neu a fu fel arall yn ei hyfforddi" rhodder "hyfforddi athletwr elît mewn cystadleuaeth elît dramor neu a fu fel arall yn darparu cymorth iddo".

(3) Ar ôl is-baragraff (1)(c) mewnosoder—

"(d) sy'n athletwr elît a fu'n mynychu rhaglen hyfforddi dramor at ddiben hyfforddi neu baratoi i gymryd rhan mewn cystadleuaeth elît,

(e) a fu'n darparu hyfforddiant neu gymorth arall i athletwr elît ar raglen hyfforddi dramor at ddiben hyfforddi neu baratoi'r athletwr elît hwnnw i gymryd rhan mewn cystadleuaeth elît,".

(4) Yn y geiriau ar ôl is-baragraff (1)(e), ar ôl "gystadleuaeth elît dramor" mewnosoder "neu'r rhaglen hyfforddi dramor".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Rhl. 5 mewn grym ar 26.9.2020 am 4.00 a.m., gweler **rhl. 1(2)**

### Ychwanegiadau at y rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon penodedig yn Atodlen 4 (digwyddiadau chwaraeon penodedig)

**6.**—(1) Mae Atodlen 4 (digwyddiadau chwaraeon penodedig) i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 3, ar y diwedd mewnosoder—

"(i) Y Gorfforaeth Ddartiau Broffesiynol - Camp Lawn Ddartiau Boylesports;

(j) Y Gorfforaeth Ddartiau Broffesiynol - Rowndiau Terfynol Pencampwriaeth Chwaraewyr Ladbrokes;

(k) Y Gorfforaeth Ddartiau Broffesiynol - Pencampwriaeth Ddartiau y Byd William Hill;

(l) Y Gorfforaeth Ddartiau Broffesiynol - Grand Prix y Byd Boylesports."

(3) Ym mharagraff 5, ar y diwedd mewnosoder—

"(o) Taith Ewrop - Pencampwriaeth yr Alban."

(4) Ym mharagraff 7, ar y diwedd mewnosoder—

"(c) Motorsport UK - Pencampwriaethau Ceir Gwyllt Prydain;

(d) Motorsport UK - Pencampwriaethau Rali Groes Prydain;

(e) Pencampwriaethau Ceir Teithio Prydain;

(f) Pencampwriaethau Rali Groes Prydain;

(g) Pencampwriaeth GT Prydain a Phencampwriaeth BRDC F3;

(h) Wythnos Gyflymder Goodwood;

(i) Gŵyl Formula Ford Brands Hatch."

(5) Ym mharagraff 10, ar y diwedd mewnosoder—

"(g) Taith Snwcer y Byd - Rowndiau Rhagbrofol Pencampwriaeth Meistri yr Almaen;

(h) Taith Snwcer y Byd - Pencampwriaeth Agored Gogledd Iwerddon;

(i) Taith Snwcer y Byd - Pencampwriaethau'r DU;

(j) Taith Snwcer y Byd - Pencampwriaeth Agored yr Alban;

(k) Taith Snwcer y Byd - Grand Prix y Byd."

(6) Ym mharagraff 14, ar y diwedd mewnosoder—

"(h) Pencampwriaeth Bocsio Ryngwladol - Queensberry Promotions."

(7) Ar y diwedd mewnosoder—

"**20.** Pêl-rwyd - England Roses v Jamaica Sunshine Girls - Cyfres Pêl-rwyd Ryngwladol Vitality."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** Rhl. 6 mewn grym ar 26.9.2020 am 4.00 a.m., gweler **rhl. 1(2)**

*Vaughan Gething*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Am 3.13 p.m. ar 25 Medi 2020

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"). Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn flaenorol gan:

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 (O.S. 2020/595 (Cy. 136));
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/714 (Cy. 160));
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/726 (Cy. 163));
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/804 (Cy. 177));
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/817 (Cy. 179));
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (O.S. 2020/840 (Cy. 185));
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (O.S. 2020/868 (Cy. 190));
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (O.S. 2020/886 (Cy. 196));
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 (O.S. 2020/917 (Cy. 205));
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2020 (O.S. 2020/944 (Cy. 210));
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2020 (O.S. 2020/962 (Cy. 216));
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) 2020 (O.S. 2020/981 (Cy. 220));
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) 2020 (O.S. 2020/1015 (Cy. 226)).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau. Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio. Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Cyfeirir at y gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 fel "gwledydd a thiriogaethau esempt".

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn hepgor Curaçao, Denmarc, Gwlad yr Iâ a Slofacia o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â'r newid yn statws y gwledydd a'r tiriogaethau hyn. Mae'r ddarpariaeth drosiannol yn ymdrin â maes a all fod yn destun amheuaeth o ran effaith y diwygiadau a wneir gan reoliad 2 o'r Rheoliadau hyn ar weithredu'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau amrywiol i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 10 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn darparu eithriad i'r gofyniad i ynysu ar gyfer athletwyr elît a phersonau sy'n darparu cymorth iddynt sy'n cyrraedd Cymru at ddiben cael asesiadau meddygol gyda busnes at ddiben contractio i gymryd rhan mewn cystadlaethau elît. Mae rheoliad 4 hefyd yn caniatáu i athletwyr elît o'r fath, pan fyddant yn contractio gyda busnes, gymryd rhan yn y gystadleuaeth elît ar ran y busnes hwnnw.

Mae rheoliad 5 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o bersonau esempt yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ar gyfer athletwyr elît domestig, eu hyfforddwyr a phersonau eraill sy'n darparu cymorth iddynt, pan fyddant yn dychwelyd i Gymru ar ôl bod mewn gwlad nad yw'n esempt at ddiben rhaglen hyfforddi elît.

Mae rheoliad 6 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

- Regulations revoked by S.I. 2022/315 Sch. para. 13
- reg. 1 coming into force by S.I. 2020/1042 reg. 1(2)
- reg. 2 coming into force by S.I. 2020/1042 reg. 1(2)
- reg. 3 coming into force by S.I. 2020/1042 reg. 1(2)
- reg. 3 heading words substituted by S.I. 2020/1080 reg. 4 (Amendment to Welsh text)
- reg. 4 coming into force by S.I. 2020/1042 reg. 1(2)
- reg. 5 coming into force by S.I. 2020/1042 reg. 1(2)
- reg. 6 coming into force by S.I. 2020/1042 reg. 1(2)